**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
**Environment and Sustainability Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jocelyn Davies AM
Chair, Finance Committee

25 October 2013

Annwyl Jocelyn

Clywsom dystiolaeth lafar gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar ei gyllideb ar 16 Hydref, ac yna clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a'r Gweinidog Cyllid a oedd yn edrych ar ystyriaethau ehangach ynghylch datblygu cynaliadwy ar draws pob portffolio yn ystod proses y gyllideb. Mae'r llythyr hwn yn amlinellu rhai o'r materion dan sylw a'r pryderon sydd gennym yn dilyn y sesiynau tystiolaeth hyn, y byddwch am eu dilyn gyda'r Gweinidog Cyllid o bosibl.

## 1. Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Rydym yn pryderu'n fawr am gynllunio a rheolaeth ariannol o fewn y portffolio Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Y rheswm am hyn yw am fod nifer o faterion allweddol wedi deillio o'n gwaith o ystyried cyllideb ddrafft 2014/15.

Rhwystrwyd ein gwaith o graffu ar y gyllideb oherwydd bod papur y gyllideb mor hwyr. Ni ddarparwyd y papur gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd tan ddiwedd y bore, ddydd Llun 14 Hydref, a oedd lai na 48 awr cyn y sesiwn graffu. Ysgrifennais at y Gweinidog i fynegi ein hanfodlonrwydd â hyn, gan dynnu sylw at y ffaith bod y mater wedi rhoi'r Pwyllgor mewn sefyllfa lle'r oedd yn torri'r Rheolau Sefydlog, ac roedd yn golygu mai ychydig iawn o amser a oedd gan yr Aelodau i baratoi. Atodaf gopi o'r llythyr hwn er gwybodaeth i chi.

Nid hwn oedd yr unig rwystr i graffu ar y gyllideb yn effeithiol. Pan gyflwynodd y Gweinidog dystiolaeth i'r Pwyllgor, teimlwyd nad oedd wedi rhoi gwybodaeth nac eglurder digonol ynghylch nifer o faterion. Ar adegau, roedd yr ymatebion a gawsom yn gwbl groes i'r wybodaeth a ddarparwyd yn y papurau ysgrifenedig. Mae hyn yn arwydd o'r pryderon sydd gennym am gynllunio a rheolaeth ariannol gyffredinol yn yr Adran hon.

Yn ychwanegol, nodwyd nifer o wallau sylfaenol yn nhestun y Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys cyfeiriadau at Wobrau'r Gwir Flas, a ddiddymwyd yn

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA
Ffôn | Tel: 029 2089 8393
E-bost | Email:dafydd.elis-thomas@cymru.gov.uk
naomi.stocks@cymru.gov.uk

gynharach eleni, a chyfeiriad at y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, a ddisodlwyd bellach gan y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth.

### 1.2 Materion yn ystod y flwyddyn

Cyn nodi ein pryderon ynghylch cyllideb 2014/15, hoffwn dynnu eich sylw at broblemau sy'n ymwneud â chyllideb 2013/14.

Cafwyd amryfusedd o ran yr adnoddau cronnus ar gyfer portffolio'r Gweinidog yn y Gyllideb Atodol ym mis Mehefin 2013 / 14. Roedd hwn yn ymwneud â'r arian a oedd yn ofynnol ar gyfer y Taliadau Sengl ym mis Rhagfyr 2013. Rhoddwyd gwybod i ni mai amryfusedd gweinyddol oedd hwn, a ddigwyddodd yn ystod y gwaith o ailstrwythuro'r gyllideb ar ôl ail-drefnu gwaith y Gweinidogion. Dywedodd swyddogion a'r Gweinidog yn glir na fyddai hyn yn effeithio dim ar allu'r Llywodraeth i wneud y taliadau hyn. Fodd bynnag, mae anghysondeb rhwng swyddogion a'r Gweinidog, ynghylch y cwestiwn a fydd angen i'r diffyg hwn ddod o feysydd eraill o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog, mewn tystiolaeth lafar, nad oes unrhyw effaith ar y gyllideb, oherwydd bod yr arian hwn yn dod yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd a bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel asiantaeth dalu yn unig. Fodd bynnag, mewn ymateb i ymholiad ar y mater hwn cyn y sesiwn dystiolaeth lafar, dywedwyd wrthym: *'Welsh Government has one control total for income and so any potential shortfall would be covered within the headroom of the WG Income ambit'.*

Er ein bod yn cydnabod yr eglurhad a gawsom na fydd yr amryfusedd gweinyddol hwn yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wneud y taliadau hyn, rydym yn pryderu bod y camgymeriad hwn wedi'i wneud, ac rydym yn parhau'n ansicr ynghylch yr effaith a gaiff y camgymeriad ar allu Gweinidogion eraill i reoli eu hadnoddau'n effeithiol yn 2013-14.

Efallai y bydd y Pwyllgor Cyllid am ofyn i'r Gweinidog Cyllid am eglurhad ynghylch a fydd unrhyw ddiffyg yn effeithio ar allu Gweinidogion eraill i reoli eu hadnoddau'n effeithiol.

### 1.3 Cynllunio ariannol - Cyllideb y Cynllun Datblygu Gwledig

Mae 'hyblygrwydd' sylweddol o fewn cyllideb ddomestig y Cynllun Datblygu Gwledig. Er ein bod yn cydnabod yr eglurhad a gafwyd gan y Gweinidog a'i swyddogion mai'r rheswm am hyn yw'r rheidrwydd i gynllunio cyllideb amlflwydd ar sail galw, ac y bydd angen cael rhywfaint o 'hyblygrwydd', rydym yn parhau'n ansicr pam mae'r 'hyblygrwydd' mor sylweddol. Hefyd, nid ydym yn sicr pam mae'r 'hyblygrwydd' hwn wedi cronni dros nifer o

flynyddoedd. O edrych arno ochr yn ochr â'n pryderon eraill, mae'n awgrymu bod problemau o ran cynllunio a rheolaeth ariannol yn yr adran. Fodd bynnag, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog na fydd y lefelau 'hyblygrwydd' sylweddol hyn i'w gweld yn y dyfodol.

O ran yr 'hyblygrwydd', ymddengys bod y Gweinidog yn awyddus i ddefnyddio rhywfaint ohono i ariannu amrywiaeth o brosiectau posibl (gweler paragraffau 1.3.1 a 1.3.2 i gael rhagor o fanylion), eto, nid yw wedi cael cadarnhad gan y Gweinidog Cyllid y bydd yn gallu cadw'r 'hyblygrwydd' hwn o fewn y portffolio Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

Efallai y bydd y Pwyllgor Cyllid am dynnu sylw at y mater hwn â'r Gweinidog Cyllid, a gofyn pa drafodaethau a gynhaliwyd ar y rheolaeth wael o gyllideb ddomestig y Cynllun Datblygu Gwledig ac ar gadw'r 'hyblygrwydd' sy'n deillio ohono, o fewn y portffolio Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

### 1.3.1 Cynllunio ariannol – Sefyllfa byd natur a Bioamrywiaeth

Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd y byddai £6 miliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer cynllun rheoli bywyd gwyllt. Roedd hyn mewn ymateb i'r adroddiad 'Sefyllfa Byd Natur'. Roedd y Pwyllgor yn synnu felly nad oedd y dyraniad hwn yn gwbl adnabyddadwy yng nghynigion Cyllideb Ddrafft y Gweinidog pan gyhoeddwyd hwy. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog y byddai'r arian hwn yn dod o 'hyblygrwydd' o fewn cyllideb ddomestig gyfredol y Cynllun Datblygu Gwledig. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth lafar, fel y nodwyd eisoes, dywedodd y Gweinidog yn y lle cyntaf nad oedd wedi cael cadarnhad gan y Gweinidog Cyllid y byddai'n gallu cadw 'hyblygrwydd' y Cynllun Datblygu Gwledig o fewn ei bortffolio Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

Ar ôl i Aelodau ofyn rhagor o gwestiynau llafar, dywedodd y Gweinidog wedyn ei fod wedi cael caniatâd gan y Gweinidog Cyllid i ddefnyddio £6 miliwn o 'hyblygrwydd' ar gyfer y cynnig penodol hwn. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod y £6 miliwn wedi'i gynnwys o fewn cynigion ei Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2014-15, ond o fewn llinell wariant yn y gyllideb nad yw'n gysylltiedig â Chynllun Datblygu Gwledig 2014-20.

Rydym yn anfodlon na allai'r Gweinidog ddarparu eglurder llwyr ynghylch ariannu'r cynllun o fewn cynigion ei Gyllideb Ddrafft, o gofio bod cyhoeddiad wedi'i wneud am y cynllun hwn i randdeiliaid ym mis Gorffennaf 2013. Mae cynnwys y cynigion gwariant hyn o fewn llinell wariant anghysylltiedig y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20, yn hytrach na llinell wariant yn y gyllideb Natur/ Cadwraeth yn ei gwneud yn anodd i'r Pwyllgor a rhanddeiliaid, fel ei

gilydd, graffu ar y cynlluniau hyn. Y diffyg eglurder cyffredinol hwn o fewn cynigion Cyllideb Ddrafft y Gweinidog sydd wedi ei gwneud yn anodd i'r Pwyllgor graffu'n effeithiol ar y gyllideb hon. (Byddwn yn trafod hyn ym mharagraff 1.3.2 hefyd).

Mae hefyd yn anfoddhaol gan y Pwyllgor nad oes dim canlyniadau ar gyfer y swm sylweddol o wariant hwn wedi'u dynodi hyd yma.

### 1.3.2 Cynllunio ariannol – Prosiectau arfaethedig

O fewn papurau cyllideb y Gweinidog, darparwyd manylion am nifer o brosiectau arfaethedig a gostiwyd, eto, nid yw'r prosiectau hyn wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft. Ni chynigiodd y Gweinidog eglurhad cynhwysfawr ynghylch pam nad oedd y prosiectau arfaethedig hyn wedi'u cynnwys yng nghynigion y Gyllideb Ddrafft. Bu'n anodd iawn i'r Pwyllgor graffu ar gynlluniau'r Gweinidog ar gyfer y gyllideb pan fydd nifer o'i brosiectau allweddol wedi'u hepgor ohonynt. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn anodd i randdeiliaid asesu effeithiau tebygol cynlluniau'r Gweinidog ar eu sefydliadau a'u busnesau hwy. Hefyd, er ein bod yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi cyhoeddi costau ar gyfer rhoi'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ar waith mewn dogfen ymgynghori, mae'n destun siom mawr nad oedd yn gallu nodi a oedd arian wedi'i ddyrannu yn y gyllideb ddrafft.

Mae'r holl bryderon hyn yn awgrymu bod cynllunio a rheolaeth ariannol o fewn yr adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn ddiffygiol ar hyn o bryd, a bod angen rhoi blaenoriaeth i wella yn hyn o beth.

### 1.3.3 Cynllunio ariannol – Blaenoriaethu

Roedd dwy enghraifft yn y dystiolaeth a gawsom gan y Gweinidog a oedd yn awgrymu bod diffyg rheolaeth effeithiol ar y gyllideb.

> *Polisi Morol a Physgodfeydd*
>
> Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion yn ein hadroddiad ar y Polisi Morol yng Nghymru ym mis Ionawr 2013, bod cynllun gweithredu strategol yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2013, a fyddai'n cynnwys canlyniadau a ddisgwylir a chostau darparu. Derbyniodd y Llywodraeth yr argymhelliad hwn, ond nid yw'r Cynllun Gweithredu Strategol i gael ei gyhoeddi tan fis Tachwedd. Fodd bynnag, cytunwyd ar gyllideb y polisi morol, a dywedwyd wrthym nad oedd darpariaeth ar gyfer gwariant ychwanegol a allai godi o ganlyniad i'r Cynllun Gweithredu. Mae hwn yn enghraifft o achos o'r gyllideb yn llunio'r cynllun, yn

hytrach na fel arall. O gofio'r diffyg buddsoddi difrifol yn y maes hwn dros nifer o flynyddoedd, mae hwn yn faes pryder a diddordeb penodol i'r Pwyllgor, a byddwn yn ail-edrych ar y mater hwn.

*Atal Llifogydd*

Rydym yn pryderu hefyd bod yr arian ar gyfer atal llifogydd wedi'i ddyrannu cyn datblygu Cynllun Buddsoddi Sengl. Fel yn achos y Polisi Morol, mae hyn yn awgrymu nad oes cydgysylltiad rhwng y dasg o ddatblygu polisi a'r dasg o gynllunio'r gyllideb.

*Ynni'r Fro*

Dywedodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth lafar ei fod yn hyderus bod y prosiect hwn yn cyflawni gwerth am arian, fodd bynnag, nid oedd eto wedi cael y gwerthusiad o'r prosiect eto, a dylai fod wedi dod i ben ym mis Medi 2013. Mae'n destun pryder bod adnoddau ychwanegol o £1 miliwn wedi'u dyrannu i gynllun nad oes gwerthusiad o'i werth am arian wedi'i gwblhau eto.

Ceisiwyd cael gwybodaeth gan y Gweinidog ynghylch pa feysydd yn y gyllideb yr oedd y wasgfa ar y gyllideb yn pwyso arnynt fwyaf (sy'n arbennig o bwysig pan fydd cynifer o brosiectau heb eu cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft.) Fodd bynnag, ni allai adnabod unrhyw feysydd, a'r cyfan a ddywedodd oedd y byddai newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol drwyddi draw, ac y byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am y newidiadau hefyd. Nid yw'r ymateb hwn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod y gyllideb yn cael ei chynllunio, ei rheoli na'i monitro yn effeithiol.

Rydym am wneud dau argymhelliad yn ymwneud â chynllunio a rheolaeth ariannol o fewn y portffolio Cyfoeth Naturiol a Bwyd:

**Argymhelliad**: Rydym yn argymell bod yr Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwella eu dulliau o gydgysylltu â'r Uned Gyllidebu Ganolog ym mhob cam o broses y gyllideb, gan gynnwys cam y Gyllideb Ddrafft a cham y Gyllideb Atodol, fel mater o frys.

**Argymhelliad**: Rydym yn argymell y dylai unrhyw brosiectau penodol a gaiff eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn gael eu llinell wariant eu hunain yn y gyllideb, er mwyn gwella tryloywder ac eglurder ynghylch ymrwymiadau ariannu a wneir.

Efallai y bydd y Pwyllgor Cyllid am ofyn i'r Gweinidog Cyllid am ei barn hi ar y rheolaeth ariannol o fewn y portffolio Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ac a yw hi'n hyderus ei fod yn gadarn ac yn addas i'w ddiben.

Af ymlaen yn awr at nifer o faterion, er bod ganddynt gysylltiad agos â'n pryderon difrifol am reolaeth ariannol, sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol.

### 1.4 Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd yn destun siom mawr fod Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigurau ar fuddion crynswth yn unig ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn y papur, yn hytrach na ffigurau buddion net. Llwyddwyd i gael gafael ar y ffigurau hyn yn uniongyrchol gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ond nid yw hyn yn arwydd o broses gyllideb dryloyw.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu gwasgfeydd niferus ar eu cyllideb oherwydd: lleihad yn eu harian; ail-broffilio buddion net yr uno, a arweiniodd at gostau cynyddol yn y blynyddoedd cyntaf, a phwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn sgîl yr achosion o afiechydon coed. O gofio'r wasgfa hon ar y gyllideb, roedd y Pwyllgor yn siomedig na allai'r Gweinidog nodi wrth y Pwyllgor pa wasanaethau tebygol y byddai angen i Gyfoeth Naturiol Cymru eu cwtogi neu'u lleihau. Er ein bod yn cydnabod bod y Gweinidog ar ddechrau ei drafodaethau â Chyfoeth Naturiol Cymru am y llythyr cylch gwaith ar gyfer 2014/15, byddem yn disgwyl y gallai ddarparu rhywfaint o wybodaeth am y meysydd y mae am i Gyfoeth Naturiol Cymru roi blaenoriaeth iddynt mewn hinsawdd o doriadau ariannol. Fel arall, ni allwn fod yn hyderus bod y swm a ddyrannwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ddigonol. Yn ychwanegol, nid yw hyn yn darparu tryloywder i ddefnyddwyr y corff, y gallai newidiadau i wasanaethau effeithio arnynt.

### 1.5 Lles Anifeiliaid

Dywedodd y Prif Swyddog Milfeddygol wrthym ei bod o'r farn y gallent gyflawni blaenoriaethau lles anifeiliaid y Llywodraeth o fewn y gyllideb, ond er mwyn cyflawni hyn, y byddai angen i'r Llywodraeth chwilio am sefydliadau 'partner' i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Gwyddom fod y sefydliadau partner hyn, yn enwedig ym maes llywodraeth leol a'r trydydd sector, yn wynebu eu gwasgfa ariannol eu hunain. O ganlyniad, byddwn yn parhau i wylio'r mater hwn. Rydym hefyd yn pryderu'n benodol ynghylch effaith deddfwriaeth y DU ar gyllidebau lles anifeiliaid, ac rydym yn manylu yn eu cylch ym mharagraff 1.7.

### 1.6 Parciau Cenedlaethol;

Roedd y Gweinidog yn amharod i gadarnhau a oedd wedi cael trafodaethau â'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon am y lleihad yn y gyllideb ar gyfer Parciau Cenedlaethol a Gerddi Botaneg Cenedlaethol. Mae hyn o ddiddordeb i'r Pwyllgor oherwydd mae gan y Parciau Cenedlaethol a Gerddi Botaneg rôl o ran darparu prosiectau amgylcheddol a phrosiectau bioamrywiaeth. Rydym, felly, yn parhau'n ansicr ynghylch a fydd y toriad hwn yn effeithio ar allu'r Gweinidog i ddarparu'r prosiectau hyn, ac a yw hwn yn fater sydd wedi'i drafod ymhlith Gweinidogion hyd yn oed.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Cyllid am ystyried sut y bydd y materion trawsadrannol hyn yn cael eu hystyried a'u datrys drwy broses y gyllideb.

### 1.7 Goblygiadau ariannol deddfwriaeth

Fel yn achos gweddill y gyllideb, mae diffyg gwybodaeth gydlynol yn golygu na allwn fod yn hyderus bod y gyllideb yn darparu arian digonol i gyflawni deddfwriaeth Cymru, y DU na deddfwriaeth Ewropeaidd yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Yn y papur, dywedodd y Gweinidog y gallai deddfwriaeth y DU o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a heddlu 'effeithio rhywfaint ar gyllidebau, yn benodol mewn cysylltiad â newid ymddygiad perchnogion cŵn ac annog perchnogaeth fwy cyfrifol o gŵn'. Eto, pan ofynnwyd am hyn yn y Pwyllgor, dywedwyd wrthym nad oedd dim goblygiadau ariannol i'r ddeddfwriaeth, ar wahân i amser staff. Rydym yn pryderu am yr anghysondeb hwn, ac unwaith eto, ymddengys fod y mater yn awgrymu bod diffyg cydlyniant yn y dasg o gynllunio ariannol o fewn yr adran hon.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Cyllid am ddilyn y trywydd o ran pa mor dda y mae'r ystyriaeth ynghylch effeithiau ariannol deddfwriaeth Cymru, y DU a deddfwriaeth Ewropeaidd wedi'i integreiddio ym mhroses y gyllideb yn yr adrannau drwyddynt draw.

Rydym yn siomedig am brydlondeb gwybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog, a'r sesiwn dystiolaeth lafar, lle yr osgowyd nifer o gwestiynau neu lle y darparwyd gwybodaeth groes. Rydym ni o'r farn bod hyn yn arwydd bod problemau wrth wraidd y gwaith o gynllunio a rheolaeth ariannol yn yr adran hon, a byddwn yn parhau i edrych yn fanwl ar y materion hyn yn ystod y flwyddyn, ac yng nghylchoedd y gyllideb yn y dyfodol. Rydym o'r farn bod

dull gweithredu'r adran hon o ran rheolaeth ariannol yn rhwystr i dryloywder cyffredinol. Felly, nid oes modd i ni asesu a yw'r gyllideb yn cael ei blaenoriaethu'n briodol ac a yw'n darparu gwerth am arian.

2. Datblygu Cynaliadwy:

Roedd y sesiwn dystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog Cyllid, a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn canolbwyntio ar brif ffrydio datblygu cynaliadwy yn y broses o gyllidebu.

Oherwydd bod gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfansoddiadol i ystyried datblygiad cynaliadwy, rydym o'r farn y dylai'r Llywodraeth fod yn sefydliad enghreifftiol ym mhob agwedd ar hyn, gan gynnwys yn y broses o gyllidebu. Rydym yn siomedig nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, croesawn ymrwymiad y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i sicrhau y daw Llywodraeth Cymru yn sefydliad enghreifftiol o dan nawdd y gwaith a gyflawnir ar y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er ein bod yn ffafrio dull integredig o ystyried datblygu cynaliadwy, ochr yn ochr â ffactorau eraill, nid ydym wedi'n darbwyllo bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb eleni wedi galluogi i ddatblygu cynaliadwy gael ystyriaeth lawn na phwysigrwydd digonol. Roedd y ffaith nad oeddent mewn sefyllfa i nodi canlyniadau clir, na darparu gwybodaeth am unrhyw gamau lliniarol a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r asesiadau Datblygu Cynaliadwy yn dystiolaeth o hyn.

Mae'n destun pryder ei bod yn ymddangos bod y Gweinidogion yn croesddweud eu hunain pan ofynnwyd am enghreifftiau o sut yr oedd cynigion y gyllideb wedi newid o ganlyniad i ystyriaethau datblygu cynaliadwy. Nododd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi y gellid darparu ffigurau o ran newidiadau a wnaed i'r cynigion Cyllideb Ddrafft, ond dywedodd y Gweinidog Cyllid nad oedd modd darparu ffigurau penodol. Mae'n destun pryder nad oes enghreifftiau ar gael, ac felly nid oes modd i ni ystyried pa mor gadarn yw'r asesiadau datblygu cynaliadwy a wneir o ran y gyllideb.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Cyllid am wneud ymholiadau â'r Gweinidog sut y bwriada Llywodraeth Cymru ystyried datblygu cynaliadwy mewn modd cryfach, a sut y mae modd iddynt ddarparu gwell tystiolaeth o'r ystyriaeth hon.

Yn ychwanegol, rydym yn pryderu nad oes digon o wybodaeth llinell sylfaen wedi'i chasglu mewn rhai achosion ar gyfer asesu a yw prosiectau penodol yn darparu gwerth am arian ai peidio. Yn ystod ein gwaith ar Newid yn yr Hinsawdd, clywsom gan gynrychiolwyr o Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, nad oedd unrhyw fesuriadau defnyddio ynni wedi'u cymryd yn ystod Cam 1 o Arbed, cyn gwneud y gwelliannau, nac ar ôl hynny, felly nid oes modd iddynt asesu pa mor effeithiol yw'r camau hyn.

Mae enghreifftiau o arfer da yn Llywodraeth Cymru a ellid eu defnyddio, yn ein barn ni, i gynorthwyo i gryfhau'r gwaith o ystyried datblygu cynaliadwy. Gellid dysgu gwersi gan y Grŵp Cynghori ar y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, o ran prif ffrydio datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod pob prosiect buddsoddi cyfalaf o fewn Cynllun Buddsoddi Cymru wedi'i asesu mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy, ac rydym o'r farn y dylid ymestyn hyn.

**Argymhelliad**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn y dull gweithredu a ddefnyddiwyd wrth ystyried yr effeithiau o ran datblygu cynaliadwy ar brosiectau buddsoddi cyfalaf o fewn Cynllun Buddsoddi Cymru. Dylid cyflwyno trefniadau adrodd er mwyn gwella tryloywder, a nodi ble y mae newidiadau neu gamau lliniaru wedi'u rhoi ar waith yn sgîl ystyriaethau datblygu cynaliadwy.

### 2.1 Cyllidebau Carbon


Er ein bod wedi codi'r mater â'r Gweinidog Cyllid, ni chawsom ymateb boddhaol ynghylch a yw'r mater hwn yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. Efallai y bydd y Pwyllgor Cyllid am holi'r Gweinidog ynglŷn â'r mater hwn.

## 3. Tai ac Adfywio

Er na chlywsom dystiolaeth lafar gan y Gweinidog Tai ac Adfywio, gofynnwyd am fanylion ar y gyllideb gynllunio. Nodwyd, er gwaethaf lleihad o £1 miliwn yn y gyllideb, bod y Gweinidog wedi dweud na fydd y lleihad hwn 'yn effeithio ar y gwaith o ran ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys y Bil Diwygio Cynllunio'. Byddwn yn ysgrifennu at y Gweinidog i gael rhagor o fanylion ynghylch sut na fydd lleihad o 13.5% yn effeithio ar y gwaith hwn.

Hyderwn y bydd ein sylwadau yn ddefnyddiol yn eich gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft. Byddwn yn dosbarthu'r llythyr hwn i'r Gweinidogion perthnasol, ac yn parhau i ddilyn y materion hyn yn ystod ein gwaith o graffu ariannol a chraffu cyffredinol.

Yn gywir



**Lord Dafydd Elis-Thomas AM**
Cadeirydd – Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Cc: Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Gweinidog Cyllid
Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi